Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 24/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/03/2020

# Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn cytuno bod **ymdeimlad o gymuned** yn eu hardal leol?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 27

---

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag a yw pobl yn meddwl bod ymdeimlad cryf o gymuned yn eu hardal leol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur profiadau unigolion o ymdeimlad o gymuned ar sail tri ffactor unigol: teimlad o berthyn i'r ardal leol; a ydynt yn teimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal; ac a yw pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac urddas.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn **2018-19**. Mae'n diweddaru'r dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau 2013-14.

### Prif ganfyddiadau

Gan gadw ffactorau eraill yn gyson[1], canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod **ymdeimlad o gymuned** yn eu hardal leol.

- Bod yn **hŷn**.
- **Lles meddyliol isel.**
- **Teimlo'n ddiogel** mewn gwahanol sefyllfaoedd (ee wrth gerdded yn yr ardal ar ôl iddi dywyllu).
- **Bodlon ar yr ardal leol** fel lle i fyw.
- Dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r **cynghorydd lleol** yn ei wneud ar ran y gymuned.
- Teimlo eu bod yn gallu **dylanwadu ar benderfyniadau** sy'n effeithio ar yr ardal leol.
- Teimlo'n **fodlon ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol**.

Mae pum ffactor wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad, y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, gan gynnwys: deiliadaeth, ac a ydynt yn siarad Cymraeg. Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg.

---

[1] Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a chanran y bobl sy'n teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol yn annibynnol.

**Cynnwys** Tudalen:


1. **Y Cefndir** ....3

2. **Y Cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol** ....3

3. **Dull dadansoddi** ....4

4. **Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol** ....5

4.1 **Dadansoddi** ....7

4.1.1 **Ffactorau demograffig** ....7

*Grŵp oedran* ....7

4.1.2 **Ffactorau llesiant** ....7

*Llesiant meddyliol* ....7

4.1.3 **Diogelwch cymunedol** ....8

*Teimlo'n ddiogel* ....8

4.1.4 **Cydlyniant cymunedol** ....8

*Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol* ....8

4.1.5 **Democratiaeth leol** ....8

*Deall beth mae'r Cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned* ....8

*Teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol* ....9

4.1.6 **Gwasanaethau awdurdod lleol** ....9

*Bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol* ....9

4.2 **Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn yr ardal leol** ....9

5. **Dadansoddi cwestiynau unigol** ....10

5.1 **Ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol** ....10

5.2 **Pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda** ....10

5.3 **Pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth** ....11

6. **Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil** ....12

**Atodiad A** – Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn cael ymdeimlad o berthyn yn eu hardal leol ....14


**Atodiad B** – Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol ....15

**Atodiad C** – Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth ....16

## 1. Y Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015](#) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgysylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf wedi cyflwyno saith o nodau llesiant[2] (**Ffigur 1**).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â hapsampl o 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn.




***Ffigur 1.*** *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant[3].*

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Ddangosydd Cenedlaethol 27: **'Canran y bobl sy'n cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol** (eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal; a bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth)'.

## 2. Y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 27 drwy ofyn i'r rhai a oedd yn ateb yr Arolwg Cenedlaethol i ba raddau roeddent yn cytuno bod y datganiadau canlynol yn wir ar gyfer eu cymuned leol: 1) ymdeimlad o berthyn i ardal leol; 2) pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal; 3) pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.[3] Defnyddiwyd graddfa Likert pum pwynt i ateb pob un o'r datganiadau hyn, a oedd yn amrywio o '1 = cytuno'n gryf' i '5 = anghytuno'n gryf'. Ar gyfer y gwaith dadansoddi yn yr adroddiad hwn, roedd ymatebwyr a oedd wedi ateb cytuno'n 'gryf' neu 'tueddu i' gytuno wedi cael eu grwpio. Roedd ymatebwyr a oedd rhoi ateb 'anghytuno'n gryf' a 'tueddu i anghytuno' i'r cwestiynau am ymdeimlad o gymuned wedi cael eu grwpio. Nid oedd pobl a oedd wedi rhoi ymatebion 'niwtral' i'r cwestiwn hwn wedi cael eu cynnwys yn y gwaith dadansoddi.

**Roedd cyfanswm o 52% o oedolion yn cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol.**

---

[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael ar-lein.


[3] Darllenwch ddogfen dechnegol Dangosyddion Cenedlaethol Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

## 3. Dull dadansoddi

Er mwyn deall yn iawn sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at a yw pobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, roeddem wedi defnyddio **techneg ystadegol[4] i archwilio'r cysylltiad[5] rhwng pob ffactor ac ymdeimlad o gymuned,** *gan gadw pob ffactor arall yn gyson*. Mae cadw pob ffactor arall yn gyson (cyfeirir at hyn fel rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu i ni edrych ar bob ffactor rhagfynegi yn annibynnol (hynny yw, sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Mae modd i ni gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig ag ymdeimlad o gymuned, heb ddylanwad ffactorau eraill.

### *Cymhlethdod y perthnasoedd rhwng ffactorau*

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sydd â *chysylltiad â* phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol a pha ffactorau y mae pobl sy'n teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol yn *effeithio arnynt*. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Er enghraifft, gallai bod yn hŷn fod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod mwy o ymdeimlad o gymuned yn eu hardal; fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw ymdeimlad o gymuned mewn ardal yn gysylltiedig ag unrhyw newid mewn oedran. Nid yw'r berthynas hon mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill.[6]




***Ffigur 2** Pwysigrwydd cadw pob ffactor arall yn gyson wrth ddadansoddi ystadegau.*

### *Dehongli'r canlyniadau*

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o bobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, fel sydd wedi'u profi gan y model atchweliad rydym wedi'i ddewis. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' – sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) â'r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debyg yw un grŵp 'cyffredin' o bobl â nodwedd a rennir (ee menywod) o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, o'i gymharu â grŵp 'cyffredin' arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd

---

[4] Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

[5] Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am *debygoliaeth* perthnasoedd rhwng ffactorau, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoedd anffurfiol (ee byddai'n anghywir dweud bod teimlo'n anniogel yn eu hardal leol yn *achosi* i bobl deimlo nad oes ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol).


[6] Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â theimlo nad oes ymdeimlad o gymuned mewn ardal *a* theimlo'n anniogel.

ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw hi'n gwbl glir pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o bobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol.


## 4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol

Roedd cyfanswm o **52% o ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol** yn cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol. Mae **Ffigur 3.1** yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan **gadw'r ffactorau eraill yn gyson**) y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol. Ym mhob ffactor, mae'r grŵp sydd â'r tebygolrwydd mwyaf (canran) o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol wedi'i amlygu mewn glas golau. Caiff pob un o'r ffactorau hyn eu dadansoddi'n fwy manwl yn yr adrannau canlynol.

***Ffigur 3.1*** *Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol*



***Ffigur 3.1 (parhad)*** *Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol*



## 4.1 Dadansoddi


**Gan gadw pob ffactor arall yn gyson**, canfuwyd bod y ffactorau sy'n cael eu trafod yn yr adran hon yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu grwpio yn ôl **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol yn Adran 4.2.

### 4.1.1 Ffactorau demograffig

#### *Grŵp oedran*

Roedd **pobl hŷn** yn fwy tebygol o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, o'u cymharu â phobl iau. Dangosir hyn yn **Ffigur 4.1.** Yn benodol, pobl **25-34** oed oedd y lleiaf tebygol o gytuno, a phobl **75 oed a hŷn** oedd y mwyaf tebygol o gytuno.

***Ffigur 4.1*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a grŵp oedran.*





### 4.1.2 Ffactorau llesiant

#### *Llesiant Meddyliol*

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys mesur ar gyfer **llesiant meddyliol**.[7] Ar y cyfan, pobl â llesiant meddyliol uchel oedd y mwyaf tebygol o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, a phobl â llesiant meddyliol isel oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.2.**

***Ffigur 4.2*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a llesiant meddyliol.*





[7] Datblygwyd graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh i allu monitro llesiant meddyliol y boblogaeth gyffredinol a gwerthuso polisïau sy'n ceisio gwella llesiant meddyliol. Mae sgoriau uwch ar y raddfa hon yn arwydd o lesiant meddyliol uwch, ac mae sgoriau is yn arwydd o lesiant meddyliol is. I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen hon.

### 4.1.3 Diogelwch cymunedol

***Teimlo'n ddiogel***

**Pobl sy'n teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu** (mewn gwahanol sefyllfaoedd: gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, wrth deithio mewn car, ac wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) **oedd y mwyaf tebygol o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol**, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn teimlo'n ddiogel. Gweler **Ffigur 4.3.**

***Ffigur 4.3*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a theimlo'n ddiogel.*





### 4.1.4 Cydlyniant cymunedol

***Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol***

Pobl a oedd yn **fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw** oedd fwyaf tebygol o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal, o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. Pobl a oedd yn 'fodlon iawn' oedd y mwyaf tebygol o gytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, o'u cymharu â'r rheini a oedd yn 'anfodlon iawn'. Gweler **Ffigur 4.4.**

***Ffigur 4.4*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol.*





### 4.1.5 Democratiaeth leol

***Deall beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned***

Ar y cyfan, pobl a oedd yn **cytuno'n gryf** eu bod yn deall yn dda beth mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, o'u cymharu â'r rheini a oedd yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwnnw. Gweler **Ffigur 4.5.**


***Ffigur 4.5*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a deall beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud.*



### *Teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol*

Pobl a oedd yn **cytuno** eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol, o'u cymharu â'r rhai a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwnnw. Gweler **Ffigur 4.6**.

***Ffigur 4.6*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol.*





### 4.1.6 Gwasanaethau awdurdod lleol

### *Bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol*

Roedd pobl a oedd yn fodlon ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn fwy tebygol o gael ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol na'r rheini nad oeddent yn fodlon (gweler **Ffigur 4.7**). Yn benodol, pobl a oedd yn 'fodlon iawn' ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol, o'u cymharu â'r rhai a oedd yn anfodlon.

***Ffigur 4.7*** *Y berthynas rhwng ymdeimlad o gymuned a gallu cael gafael ar wasanaethau lleol.*




## 4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo bod ymdeimlad o gymuned yn yr ardal leol

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi'u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol:

- Math o aelwyd (deiliadaeth).
- A oes gan unigolyn gyflwr hirdymor cyfyngol.
- A yw unigolyn yn siarad Cymraeg.
- A yw'r awdurdod lleol yn ymgynghori â phobl leol wrth bennu cyllideb.
- A yw'r unigolyn yn byw mewn ardal wledig neu drefol.

## 5. Dadansoddi cwestiynau unigol

Mae dangosydd cenedlaethol 27, ymdeimlad o gymuned, yn un mesur sy'n cynnwys tri chwestiwn unigol am: 1) **ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol**; 2) **pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol**; a 3**)** **pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth yn yr ardal leol**. Yn yr adran flaenorol, roeddem yn edrych ar ffactorau a oedd yn berthnasol i'r mesur cyfun hwn; yn yr adran nesaf, rydym yn edrych ar ffactorau sy'n gysylltiedig â phob un o'r tri chwestiwn i weld a oedd y ffactorau yr un fath ag ar gyfer yr un mesur.

### 5.1 Ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol

Roedd cyfanswm o **89%** o bobl yn cytuno eu bod yn cael ymdeimlad o berthyn i'w hardal leol[8]. Mae **Tabl 1** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ymdeimlad o gymuned. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad A**.

**Tabl 1. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd sy'n gysylltiedig â phobl yn cael ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol.**

| Thema | Ffactor | Mwyaf tebygol o gael ymdeimlad o berthyn i ardal leol |
|---|---|---|
| Ffactorau demograffig | *Oedran* | Pobl hŷn |
| Ffactorau llesiant | *Bodlonrwydd ar fywyd* | Bodlonrwydd uchel ar fywyd |
| | *Teimlo'n ddiogel* | Teimlo'n ddiogel |
| Cydlyniant cymunedol | *Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol* | Bodlon |
| Democratiaeth leol | *Mae'r cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol* | Cytuno |

### 5.2 Pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda

Roedd cyfanswm o **90%** o bobl yn cytuno bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol[9]. Mae **Tabl 2** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ymdeimlad o gymuned. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad B**.

[8] Roedd 17% wedi ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.

[9] Roedd 14% wedi ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.

**Tabl 2. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd oedd yn gysylltiedig â phobl yn teimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol.**

| Thema | Ffactor | Y mwyaf tebygol o deimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda |
|---|---|---|
| Ffactorau demograffig | *Oedran* | Pobl hŷn |
| Ffactorau llesiant | *Llesiant Meddyliol*<br>*Teimlo'n ddiogel* | Llesiant meddyliol uchel<br>Teimlo'n ddiogel |
| Cydlyniant cymunedol | *Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol* | Bodlon |
| Democratiaeth leol | *Deall yn dda beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned leol.*<br>*Mae'r awdurdod lleol yn ymgynghori â phobl leol wrth bennu cyllideb* | Cytuno<br>Cytuno |

## 5.3 Mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth

Roedd cyfanswm o 87% o bobl yn cytuno bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal leol[10]. Mae **Tabl 3** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn o ymdeimlad o gymuned. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad C**.

**Tabl 3. Crynodeb o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.**

| Thema | Ffactor | Y mwyaf tebygol o deimlo bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth |
|---|---|---|
| Ffactorau demograffig | *Oedran* | Pobl hŷn |
| Ffactorau tai | *Deiliadaeth* | Perchen ar dŷ |
| Ffactorau llesiant | *Llesiant Meddyliol*<br>*Teimlo'n ddiogel* | Llesiant meddyliol uchel<br>Teimlo'n ddiogel |
| Cydlyniant cymunedol | *Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol* | Bodlon |
| Democratiaeth leol | *Deall yn dda beth mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned leol.* | Cytuno |
| Y Gymraeg | *A ydynt yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd* | Siarad Cymraeg |

10 Roedd 13% wedi ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.

## 6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â **Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 27: 'Canran y bobl sy'n cytuno bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol** (eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth). Roedd saith thema ganolog[11] wedi dod i'r amlwg yn ein dadansoddiad:

1. Ffactorau demograffig.
2. Ffactorau tai.
3. Ffactorau llesiant.
4. Cydlyniant cymunedol.
5. Democratiaeth leol.
6. Gwasanaethau awdurdod lleol.
7. Y Gymraeg.

Gallai'r berthynas rhwng ffactorau penodol a phobl yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn y dadansoddiad hwn, a gallai'r canlyniadau **amrywio** rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd. Felly, gallai rhagor o ymchwil gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau ymchwil ansoddol[12] neu ddulliau cymysg[13].

[11] Gyda'i gilydd, roeddem wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â **7 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant** fel rhan o brosiect yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Canfuwyd bod rhai ffactorau yn gysylltiedig â mwy nag un Dangosydd Cenedlaethol, felly rydym wedi darparu dogfen ar wahân sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol, a'r themâu cyffredinol, y canfuwyd sy'n gysylltiedig â'r holl Ddangosyddion Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein: Hafferty, C. (2020). *Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR. Ar gael yn: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019.

[12] Defnyddir ymchwil ansoddol yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl; er mwyn gweld y tueddiadau o ran meddyliau a safbwyntiau pobl er mwyn i ni ddeall mater penodol yn well. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil *feintiol* yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol i sampl fawr o boblogaeth (ee agweddau, ymddygiad a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn bennaf.

[13] Mae 'dulliau cymysg' yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol anelu at baratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth ar sail sawl math o dystiolaeth, (er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd), gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd dda o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr Adroddiad: Caitlin Hafferty

*Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.*

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Siobhan Evans
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

---


Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-350-0

# Atodiadau

**Atodiad A** – Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn cael ymdeimlad o berthyn yn eu hardal leol.



**Atodiad B** – Crynodeb o’r prif ffactorau sy’n gysylltiedig â theimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda yn yr ardal leol.



**Atodiad C** - Crynodeb o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

